Annwyl Cyfarwyddwr

**Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein gweithgaredd â ffocws ym mis Hydref 2018 gyda phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, trafodaethau ynghylch eiriolaeth i blant ym mis Chwefror 2019 a gwaith cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr ac asesiadau gofalwyr ym mis Chwefror 2019. Gwnaethom gyfarfod â Phenaethiaid gwasanaethau plant ac oedolion ym mis Medi 2018 a chymerodd AGC ran yn yr arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc Bae'r Gorllewin a'r arolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol o fewn ôl troed Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Castell-nedd).

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 2 Mai 2019.

<u>Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</u>

- Lles

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi newid strwythur uwch-reoli'r gwasanaethau plant fel bod gan yr uwch-reolwyr drosolwg gwell o dimau gwaith achos. Gwyddom iddi fod yn anodd recriwtio staff i lenwi swyddi gwag mewn gwasanaethau plant a bod staff dros dro wedi cael eu defnyddio i lenwi swyddi gwag. Gwnaethom gyfarfod â phobl ifanc ym mis Hydref 2018 a ddywedodd wrthym eu bod yn anfodlon bod eu gweithwyr cymdeithasol wedi newid. Deallwn fod y sefyllfa wedi gwella dros y chwe mis diwethaf a bod y pwyslais yn cael ei roi nawr ar gadw staff presennol. Mae ffrydiau cyllido byrdymor wedi cyflwyno heriau ychwanegol gan fod rhai staff yn cael eu cyflogi o gyllid grant. r

Roeddem yn falch o glywed bod yr awdurdod lleol wedi ennill Gwobr Gofal Cymdeithasol am y cymorth a roddir i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Caiff ymarferwyr eu goruchwylio gan eu rheolwyr llinell ac mae uwch-reolwyr yn adolygu dangosyddion perfformiad yn y maes hwn er mwyn canolbwyntio ar wella trefniadau i gofnodi sesiynau goruchwylio amserol. Roedd arwyddion o welliant eisoes yn amlwg ar ddiwedd y flwyddyn gyda pherfformiad yn rhagori ar y targed o 80%.

Mae fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith i fonitro a blaenoriaethu meysydd i'w gwella ac mae cyfathrebu rheolaidd â rheolwyr tîm yn sicrhau bod ganddynt safbwynt ar y cyd ar ffocws rheolwyr. Rydym yn falch o weld bod trefniadau wedi cael eu cynnwys ar gyfer gwaith archwilio gan gymheiriaid, dysgu o arfer da a rhannu adborth cadarnhaol.

Dywedodd pobl ifanc a gofalwyr maeth wrthym eu bod wedi cael trafferthion cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a fyddai wedi bod yn fuddiol yn eu barn nhw. Nid dim ond pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n teimlo fel hyn. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o drefniant rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau therapiwtig. Ar ôl i'r trefniadau rhanbarthol newid, mae uwch-reolwyr yn ceisio sefydlu adnodd tebyg yng Nghwm Taf Morgannwg. Yn lleol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ceisio cyflogi cymorth seicolegol ychwanegol i bobl ifanc; fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn anodd o ganlyniad i anawsterau recriwtio.

Mae angen sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael asesiadau amserol a'u bod yn cael ymweliadau rheolaidd wrth dderbyn gofal. Mae uwch-reolwyr yn rhoi sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, ac mae amlder ymweliadau gyda plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n barhaus, gyda'r targed o 80% yn uwch na'r targed ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau'n sefydlog mae uwch-reolwyr yn edrych ar ffyrdd o leihau'r niferoedd drwy adolygu a fyddai'n ddiogel dirymu gorchmynion gofal mwy o blant sydd wedi'u lleoli gartref gyda'u rhieni.

Dywedodd plant sydd â phrofiad o ofal wrthym am newidiadau o ran lleoliadau a oedd, weithiau, wedi effeithio ar eu haddysg. Dywedodd y plant wrthym nad ydynt bob amser yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am y newidiadau hyn nac yn cael eu paratoi'n

ddigonol amdanynt. Mae Pennaeth y Gwasanaeth yn cadarnhau bod dod o hyd i leoliadau i rai plant yn anodd iawn. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud ymdrech i recriwtio mwy o ofalwyr maeth ac mae wedi ailfodelu ei ddarpariaeth cartrefi gofal mewnol yn sylweddol er mwyn diwallu anghenion plant yn well. Mae diffyg lleoliadau priodol i blant ag anghenion cymhleth yn broblem genedlaethol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er clod iddo, wedi ceisio gwella ei ymateb lleol.

Mae uwch-reolwyr o'r farn bod y model diwygiedig yn ifanc iawn o hyd ac yn dweud bod ei leoliadau brys wedi cael eu defnyddio'n sylweddol, sydd wedi atal plant rhag cael eu lleoli ymhell o'u cymuned leol. Fodd bynnag, gwyddom fod heriau i'w hwynebu o hyd gan fod yr awdurdod lleol wedi parhau i ddefnyddio trefniadau anghofrestredig i ofalu am blant am gyfnodau byr o bryd i'w gilydd. Mae’r awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar gryfhau'r gwasanaethau maethu a threfniadau comisiynu er mwyn ateb y galw ac osgoi sefyllfaoedd lle gall plant gael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio. Yn ein barn ni, un o ganlyniadau llwyddiannus y gwaith ailfodelu yw y byddai plant sydd â phrofiad o ofal yn cael eu symud yn llai aml.

Clywsom gan ofalwyr maeth a oedd yn teimlo y dylai mwy gael ei wneud yn gynharach er mwyn helpu pobl ifanc i adael gofal, yn enwedig o ran sgiliau byw'n annibynnol. Teimlai rhai gofalwyr maeth y gellid gwneud mwy i hyrwyddo cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod eu cynghorwyr personol yn gymwynasgar iawn. Roeddent yn werthfawrogol iawn o'r cymorth i fyw'n annibynnol a'r cyfleoedd i gael hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae'r pwysau ar ofal cartref wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn, ac mae hyn wedi cael effaith andwyol ar ffigurau perfformiad Oedi wrth Drosglwyddo Gofal tua diwedd 2019/20. Mae cynlluniau’n cael eu datblygu i fynd i’r afael â’r materion, ac mae uwch-reolwyr yn cadw perthynas gadarnhaol â'r asiantaethau darparu ac maent yn ymwybodol o'r anawsterau sydd wedi codi wrth recriwtio gofalwyr o ganlyniad i'r cyfleoedd cyflogaeth eraill sydd ar gael y tu allan i'r sector gofal. Unwaith eto, mae hon yn broblem sy'n wynebu llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn buddsoddi mewn system amserlennu electronig, wedi’i fwriadu i wella’r defnydd o adnoddau gofal mewnol yn y cartref.

- Pobl – llais a rheolaeth

Pan wnaethom gyfarfod â grŵp o blant sy'n derbyn gofal ym mis Hydref 2018, dywedodd y plant wrthym nad oeddent yn teimlo bod eu gweithwyr cymdeithasol yn gwrando arnynt bob amser a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried eu barn. Dywedodd rhai o'r plant nad oeddent wedi cael cynnig eiriolwyr. Rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynllun gweithredu ar waith a phan wnaethom ddychwelyd ym mis Chwefror 2019, gwelsom fod nifer yr atgyfeiriadau at y darparwr eiriolaeth wedi cynyddu. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw y tro hwnnw fod cael eiriolwr wedi bod yn fuddiol iawn o ran eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Cadarnhaodd y plant eu bod wedi gallu cael cymorth eiriolaeth ar yr amser cywir iddyn nhw. Roeddem yn gwybod bod rheolwyr yn codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ac yn monitro p'un a oedd eiriolaeth yn cael ei chynnig yn rhagweithiol fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd.

Roeddem yn falch o glywed bod yr awdurdod lleol yn ystyried sut y gall ddiwygio fformat adolygiadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn eu gwneud yn fwy ystyrlon,

sicrhau bod eu safbwyntiau a'u dymuniadau'n greiddiol i'r trafodaethau a chynyddu arbedion effeithlonrwydd. Gwnaethom siarad â phobl ifanc a oedd yn teimlo eu bod wedi ymddieithrio o'u hadolygiadau a'u bod yn ailadroddus. Cynhaliwyd ymgynghoriad ac ymgysylltiad â'r rhai sy'n gadael gofal a hefyd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd i helpu lywio'r gwaith o ddatblygu'r model gwasanaeth preswyl sydd newydd ei weithredu, ac mae angen i'r awdurdod lleol ymgorffori gwell ymgysylltiad â phlant a pobl ifanc wrth ganolbwyntio ar wella gwasanaethau. Deallwn fod yr awdurdod lleol yn atgyfodi fforymau plant a phobl ifanc a ddylai roi mwy o gyfle iddo ymgynghori â phobl ifanc ar yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Gwnaethom siarad â staff a gofalwyr am y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn datblygu model gwasanaeth newydd i roi cymorth a gwybodaeth i ofalwyr sy'n oedolion. Clywsom am yr ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid a'r digwyddiadau a gynhaliwyd er mwyn casglu barn ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud i'r cymorth presennol i ofalwyr. Cynlluniwyd y broses ymgynghori fel bod modd cyd-gynhyrchu. Roedd rhai gofalwyr sy'n gofalu am bobl â phroblemau iechyd meddwl yn teimlo eu bod wedi chwarae llai o rôl yn y broses, ond rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth sicrwydd i ni fod fforwm iechyd meddwl penodol ar gael i ofalwyr. Gwelsom fod gan y rheolwyr weledigaeth glir i gefnogi gofalwyr nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau o'r blaen, gan gynnwys y rhai o gymunedau ethnig lleiafrifol. Bwriedir gwneud defnydd mwy creadigol o daliadau uniongyrchol er mwyn grymuso gofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, a rhoi mwy o ddewis iddynt.

Gwnaethom ystyried arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd yr awdurdod lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen fel rhan o'n gweithgareddau gwerthuso perfformiad. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwybod ble mae staff Cymraeg y gwasanaethau cymdeithasol ac er bod nifer fawr ohonynt yn gallu sgwrsio yn Gymraeg, mae nifer y staff sy'n hyderus i gynnal asesiadau neu wneud gwaith cymhleth arall yn Gymraeg yn llai nag y byddai'r awdurdod lleol yn ei ddymuno. Pan fo angen, caiff trefniadau penodol eu gwneud ac mae'r uwch-reolwyr yn fodlon bod y staff yn darparu'r cynnig rhagweithiol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu'r staff i ddilyn hyfforddiant Cymraeg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwybodol o bresenoldeb staff Cymraeg yng nghartrefi gofal a gwasanaethau byw â chymorth yr awdurdod lleol.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid wedi nodi, oherwydd y beichiau ychwanegol o ganlyniad i ddyfarniad Goruchaf Lys Gorllewin Gaer yn 2014, nad yw'r awdurdod lleol, fel llawer o bobl eraill yng Nghymru, yn gallu sicrhau ei hun bod hawliau dynol pobl heb gael eu torri trwy gael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn, fodd bynnag cydnabyddir bod y Llywodraeth wedi derbyn nad yw'r ddeddfwriaeth amddifadedd rhyddid bresennol yn addas at y diben a bydd yn diwygio'r ddeddfwriaeth i ailwampio'r system amddifadu o rydd a gaiff ei disodli gan set newydd o fesurau diogelu ar gyfer diogelu pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid.

- Atal

Datblygiad arwyddocaol yn yr awdurdod lleol eleni fu sefydlu 'drws ffrynt' newydd ar gyfer plant a theuluoedd. Er y caiff ei alw'n ganolfan ddiogelu amlasiantaethol, mae'r model yn ymgorffori dyletswydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Deallwn fod yr adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a gweithwyr

proffesiynol yn gadarnhaol a bod trefniadau ar waith i gysylltu'n ddyddiol ag asiantaethau partner sydd â mynediad at amrywiaeth o wasanaethau ataliol a chymorth cynnar.

Gwelsom gynnydd yn nifer y plant a oedd wedi cael eu hailgofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd 2018, a oedd yn cyd-daro â chyfnod cofrestru cyfartalog is sy'n cael ei adolygu gan Bennaeth y Gwasanaeth. Roedd ffigurau perfformiad yn dangos bod lle i wella amseroldeb ymweliadau â phlant y mae angen eu hamddiffyn. Bydd uwch-reolwyr yn awyddus i fodloni eu hunain ynghylch amlder ac ansawdd gwaith i fonitro plant a gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd yn unol â'u cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

Gwnaethom adolygu sampl fach o asesiadau gofalwyr a gwelsom fod y ffurflen yn bodloni egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dim ond 3% o'r gofalwyr a aseswyd sydd â chynllun cymorth dilynol ac efallai yr hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ystyried a wneir digon o ddefnydd o gynlluniau i nodi cymorth i ofalwyr lle bo angen cynlluniau o'r fath. Gwelsom nad oedd asesiadau rhai gofalwyr yn dangos arfer gorau na phrosesau gwneud penderfyniadau atebol. Pan ofynnir i bobl gwblhau rhan o'r asesiad eu hunain, mae'r cyswllt dilynol gan staff y gwasanaethau cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ac anghenion perthnasol yn cael eu trafod a'u cofnodi. Byddai rhai asesiadau wedi elwa ar wybodaeth arbenigol am anghenion iechyd y gofalwyr eu hunain ac ni allem fod yn siŵr bod pobl yn cael copi o'u hasesiadau pan roedd ei angen arnynt. Mae gwella ansawdd asesiadau gofalwyr yn faes y dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio arno a'i wella.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae uwch-reolwyr wedi cynnal rhaglen waith sylweddol i sefydlu amrywiaeth o gytundebau partneriaeth newydd yn rhanbarth newydd Cwm Taf Morgannwg. O gofio'r angen i barhau â 'busnes fel arfer', ochr yn ochr â datblygiadau gweithredol a strategol mawr y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn, mae'n sicr bod 2018/19 wedi bod yn flwyddyn heriol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cymerodd AGC ran yn yr arolygiad yn 2018 o Wasanaeth Troseddwyr Ifanc Bae'r Gorllewin, a arweiniodd at ddyfarniad 'annigonol'. Er mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr awdurdod arweiniol, y gyfarwyddiaeth Addysg sy'n rheoli'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Fodd bynnag, mae ei berthnasedd i wasanaethau cymdeithasol yn arwyddocaol gan fod gan llawer o'r bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu anghenion gofal a chymorth. Nododd yr arolygiad fylchau a chamddealltwriaeth rhwng gwasanaethau plant a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc mewn perthynas â phlant

sy'n wynebu risg. Cawsom wybod fod pob person ifanc wedi cael adolygiad unigol i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu. Deallwn fod y canfyddiadau'n cael eu hystyried gan y cabinet a'r bwrdd rheoli corfforaethol ac y caiff unrhyw gamau angenrheidiol eu cymryd gan Wasanaeth Troseddwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr a sefydlwyd yn ddiweddar.

Mae uwch-reolwyr yn falch o'r hyn a gyflawnwyd ym maes integreiddio o fewn gofal cymdeithasol oedolion ac maent yn trosglwyddo'r trefniadau hyn drosodd gyda'u cydweithwyr iechyd newydd. Maent wedi nodi rhagor o waith y mae angen ei wneud i gael gwasanaethau ataliol ac integredig a fydd yn gwella cydnerthedd personol a chymunedol. Mae cynllun gwaith ar gael, sy'n ddibynnol ar sicrhau arian grant, ac mae hwn yn cynnwys gwaith penodol i ddatblygu gwasanaethau dementia a fydd yn defnyddio cyfleoedd cymunedol sy'n bodoli'n barod.

Cawsom wybod am waith ar fframwaith strategol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl. Dylai hyn greu system gymorth lle mae'r elfen feddygol yn eistedd ochr yn ochr â gofal cymdeithasol a chymorth cymunedol. Caiff arian ei ddefnyddio i roi cymorth cynnar i bobl â phroblemau iechyd meddwl drwy raglen Cefnogi Pobl.

<u>Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20</u>

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Byddwn yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/20 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn edrych ar weithrediad y ganolfan ddiogelu amlasiantaethol o fewn gwasanaethau plant a chymorth i oedolion ifanc sy'n agored i niwed. Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Rydym yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Er gwybodaeth, byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn